OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 397 (Cy. 71)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Ffordd Osgoi Rhaglan, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym* | *26 Mawrth 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A449, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd am fod perygl tebygol i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Ffordd Osgoi Rhaglan, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mawrth 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri a chefnffordd yr A449 Casnewydd i Gaerwrangon;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Atal dros dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Mawrth 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Rhaglan, Sir Fynwy.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd tua'r de yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â Chylchfan Rhaglan, Sir Fynwy.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Rhaglan hyd at ei chyffordd â cherbytffordd tua'r de yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gogledd yr A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy sy'n ymestyn o'i thrwyniad â phrif gerbytffordd tua'r gogledd yr A40/A449 hyd at ei chyffordd â cherbytffordd tua'r gorllewin yr A40.